

Pris: 50c

# Papur Pawb

Mai 2015 Rhif 409



tud 3	tud 4,5 / 8,9	tud 6	tud 12
Pobl a Phethe	Ysgolion	Hetiau	Chwaraeon

## Penderfyniad Hanesyddol

Yn dilyn trafodaeth onest ac agored mewn cwrdd eglwys, ddydd Sul, 19 Ebrill, penderfynodd aelodau Bethel Tal-y-bont ganiatáu i gyplau o'r un rhyw briodi yn y capel. O ganlyniad i'r bleidlais bydd adeilad Bethel yn cael ei gofrestru ar gyfer priodasau o'r fath.



Wrth i ddeddf gwlad newid roedd disgwyl crefyddol ddewis os oeddent am ganiatáu i briodasau o'r fath ddiwydd yn eu hadeiladau.

Gan fod yr eglwysy sy'n aelodau o Undeb yr Annibynwyr yn sefydliadau annibynnol roedd disgwyl iddynt drafod fesul un a dod i benderfyniad lleol. Mae'r un peth

yn wir am eglwysi Undeb Bedyddwyr Cymru, tra bod enwadau eraill, megis y Presbyteriaid a'r Undodiaid yn dod i benderfyniad canolog.

Ar wal fewnol Bethel, o dan y galeri, mae plac yn dynodi fod Bethel yn capel i'r 'Cynulleidfaoelwyr' a chafwyd enghraifft loyw o ystyr ymarferol hynny wrth i unigolion o wahanol safbwyntiau gyfrannu at y drafodaeth mewn ffordd aeddfed a chyfrifol, gan barchu dadleuon ei gilydd.

I rai, roedd athrawiaeth y Beibl, a chyfansoddiad yr eglwys, yn gwneud iddynt gredu fod priodasau o'r un rhyw yn amhriodol, ac yn groes i ddysgeidiaeth Duw. I eraill, roedd neges cariad y Testament Newydd, a natur agored, croesawgar y ffydd Gristnogol yn dylanwadu arnynt i gefnogi'r cynnig.

Rhagwelwyd y gallai ceisiadau ddod rhyw ddydd gan aelodau neu blant yr eglwys am gael priodi ym Methel, a'r farn a gariodd y dydd oedd fod croeso iddynt wneud hynny yn eu capel eu hunain, beth bynnag oedd eu tueddiadau rhywiol.

O gofio'r arweiniad moesol ac ymarferol y mae Bethel a'i aelodau yn dal i'w gynnig i'r ardal hon, yn enwedig ar adegau o argyfwng, bydd gwybod fod yr eglwys yn arddel daliadau mor eangfrydig yn gysur i lawer. Y neges o Dal-y-bont, felly yw bod Bethel yn dymuno dal y drws yn agored i bawb, ac yn croesawu cyplau sydd yn dymuno tyngu llw gerbron Duw mewn addoldy Cristnogol.

Y neges arall o Dal-y-bont, yw fod aelodau Bethel hefyd yn parchu barn ei gilydd, ac yn medru trafod pynciau moesol, sensitif, heb ddal dig a heb golli'r cyfeillgarwch sydd yn sylfaen i'w holl weithgareddau.

## Tawelu Traffig Tal-y-bont

Ar ôl blynyddoedd o gwynion am y perygl i blant Tal-y-bont wrth i geir a lorïau ruthro trwy'r pentref ar oriau brig, fe laniodd gweithwyr y Cyngor yn y pentref ddiwedd Ebrill i osod arwyddion fydd yn arwain at ostwng uchafswm y cyflymdra i 20 milltir yr awr pan fydd y golau'n fflachio.

Yn ychwanegol, 20 milltir yr awr fydd yn uchafswm parhaol i gerbydau ar rai o strydoedd cefn y pentref, gan ateb y galw gan nifer o'r trigolion a fu'n pwyso am y fath newid ers blynyddoedd.

Ym mis Hydref 2013 adroddodd y Cynghorydd Bleddyn Huws mewn cyfarfod o Gyngor Cymuned Ceulanamaesmawr fod deiseb wedi cael ei threfnu gan Judith Chamberlain, Llys Meirion, i bwysu ar y Cyngor Sir i godi arwyddion cyfyngu cyflymdra ar y ffordd rhwng talcen y Llew Du ac Eglwys Dewi Sant, heibio Brynhyfryd a ffald Penpompren. Anfonwyd llythyr at yr Adran Priffyrdd ar y pryd yn cefnogi dyhead y deisebwyr.

Mewn ateb a dderbyniwyd yn Ionawr 2014 cafwyd ar ddeall fod arolwg yn cael ei gynnal ac y byddai'r Cyngor Sir yn dod i benderfyniad cyn diwedd y flwyddyn. Bellach daeth y newyddion da fod Tal-y-bont ymhlith y tri lleoliad a ddewiswyd ar gyfer mesurau tawelu traffig.

Llongyfarchiadau i'r llongyfarchwyr am eu dyfalbarhad ac i'r Cyngor am ymateb.

Croesawyd y datblygiad gan Bennaeth Ysgol Tal-y-bont, Hefin Jones, gan nodi 'os oes gan rywun ddi-ddordeb i fod yn rhan o dîm sy'n cadw llygad ar gyflymder ceir yn y pentref, cysylltwch â'r ysgol am fwy o wybodaeth.'



**Salon Leri**  
Pob agwedd o drin gwallt gan Richard  
10am-7pm  
Llun-Guener  
(01970) 832 674

**loga**  
Neuadd Goffa, Tal-y-bont,  
Nos Fawrth am 7.30- 9.00.  
Pris £5.00  
Cysylltwch a  
**Sue Jones-Davies**  
01970 624658

## Papur Pawb

<b>Golygydd Cyffredinol:</b>	Gwyn Jenkins Maesgwyn, Tal-y-bont, Ceredigion golygydd@papurpawb.com	(01970) 832560
<b>Tynnu lluniau:</b>	Cysyllter â golygyddion y mis	
<b>GOHEBYDDION LLEOL</b>		
<b>Tal-y-bont:</b>	Myfanwy James, Bryn Eglur, Tal-y-bont	832592
	Aileen Williams, Maesmeillion, Tal-y-bont	832438
<b>Maes-y-deri:</b>	Eirlys Jones, 91 Maes-y-deri, Tal-y-bont	832483
<b>Parsel Henllys:</b>	Dilys Morgan, Alltgoch, Tal-y-bont	832498
<b>Bont-goch:</b>	Richard Huws, Pantgwyn, Bont-goch	832566
<b>Tre Taliesin:</b>	Siân Saunders, Is-y-coed, Tre Taliesin	832230
<b>Tre'r-ddôl:</b>	Susan Lewis, Maesgwyn, Tre'r-ddôl	832429
	Janet Evans, Cefngweiriog, Tre'r-ddôl	(01654) 781260
<b>Eglwysfach/Ffwrnais:</b>	Lona Mason, Maes y Coed, Ffwrnais	(01654) 781324
<b>CYMDEITHAS PAPUR PAWB</b>		
<b>Cadeirydd:</b>	Helen Jones, Gellimanwydd, Tal-y-bont	832760
<b>Is-gadeirydd:</b>	Gerwyn Jones, Dôl Pistyll, Tal-y-bont	832203
<b>Ysgrifennydd:</b>	Rhian Evans, Glanrafon, Tal-y-bont	832344
<b>Trysorydd:</b>	Rebecca Williams, Mur Mawr, Tal-y-bont	832093
<b>Tanygrifiadau:</b>	Bleddyn Huws, Henllan, Tal-y-bont	832448
<b>Hysbysebion:</b>	Trish Huws, Llwyn-Onn, Tal-y-bont	832076
<b>Plygu'r Papur:</b>	Gwenllian Parry-Jones; Tegwen Jones	
<b>Dosbarthwyr:</b>	John Leeding; Lynn Ebenezer; Gwenllian Parry-Jones; Carys Briddon	

Cyhoeddwyd gan Gymdeithas Papur Pawb. Ariennir yn rhannol gan Lywodraeth Cymru.

## Clwb Celf a Chrefft Taliesin

Mae Clwb Celf a Chrefft ar ôl Ysgol Taliesin yn falch iawn o gyhoeddi ei fod wedi llwyddo i dderbyn grant gan Arian i Bawb Cymru. Bydd y grant yn ariannu'r clwb dros y flwyddyn nesaf i ddatblygu sgiliau creadigol a syniadau crefft anarferol.

Bydd yr artistiaid profiadol Jenny Dingle a Rachel Booth yn cynnal y sesiynau, gydag ambell artist gwadd bob hyn a hyn. Rydym yn croesawu pob plentyn, pa bynnag ysgol maent yn mynychu, o bentrefi Glandyfi, Eglwys Fach, Ffwrnais, Taliesin, Talybont ac Ynys-las.

Cynhelir y clwb ar ôl ysgol ddydd Llun o 3.30pm tan 5pm. Ffoniwch 01970 832 458 os oes diddordeb gan eich plentyn ymuno â ni.

Am fwy o wybodaeth cysylltwch ag Ysgrifennydd Cymdeithas Rhieni ac Athrawon, Ysgol Llangynfelyn, Taliesin, Machynlleth SY20 8JG. E-bost: [prif@llangynfelyn.ceredigion.sch.uk](mailto:prif@llangynfelyn.ceredigion.sch.uk)

### Golygyddion

Golygyddion y rhifyn hwn oedd Phil a Megan, gyda Siôn yn dylunio. Golygyddion mis Mehefin fydd Mair ([mair.n@btinternet.com](mailto:mair.n@btinternet.com)) a Beryl gyda Ceri'n dylunio. Y dyddiad cau ar gyfer derbyn newyddion fydd dydd Gwener 5 Mehefin, a bydd y papur ar werth ar 12 Mehefin.

### K Hughes

#### Plymio a Gwresogi

Gosod a Theilio Ystafelloedd Ymolchi  
Gwasanaeth Boeler Olew

01970 832129

07761 917235

### Bethel yn lansio Apêl Nepal

Mae Capel Bethel Tal-y-bont wedi lansio Apêl i godi arian i gynorthwyo trigolion Nepal yn dilyn y daeargryn trychinebus a ddioddefodd y wlad ddiwedd mis Ebrill.

Mae angen arian i dalu am fwyd, dwr, cysgod a chymorth meddygol, ac i gynorthwyo'r miloedd ddigartref i ail-adeiladu eu bywydau. Byddai £14 yn talu am brydau poeth i ddau berson am wythnos gyfan, mewn gwerysll cymorth. Byddai £25 yn ddigon i brynu cysgodfa dros dro i deulu o £5. Gallai £75 brynu pecynnau glendid i alluogi tri theulu i osgoi afiechydion heintus.

Dylid cyflwyno'ch rhoddion i Ieuan Morgan, 3 Maes-y-felin, Tal-y-bont, neu unrhyw un o ddiaconiaid Bethel, a bydd y rhoddion yn cael eu trosglwyddo i Apêl y DEC trwy law Cymorth Cristnogol cyn diwedd mis Mai.

## Dyddiadur

- Mai**
- 10** Bethel Y Gymanfa  
Yng Nghapel y Garn 10.00 a 5.30  
Nasareth Y Gymanfa  
Rehoboth Y Gymanfa  
Eglwys Dewi Sant 11 Boreol Weddi
- 11** Llanfach 7.00  
Cwrdd Blynyddol Cyngor Llangynfelyn
- 17** Bethel 2.00 Mr Walford Gealy  
Nasareth  
Rehoboth 10.00 Gordon Mcdonald  
Eglwys Dewi Sant 11.00 Cymun Bendigaid
- 18** Merched y Wawr  
Cyfarfod Blynyddol '3 pheth sy'n annwyl i mi' (Trish ac Eirian)
- 18** Cyngor Cymuned  
Ceulanamaesmawr  
Cyfarfod Blynyddol 7.30
- 18, 19 a 22** Arddangosfa 'Gwlân', Hen Siop Sgidiau
- 21** Sefydliad y Merched  
Cŵn yr Heddlu (David Poole)
- 23** Hwyl gwerin, Patsyn Glas, Tal-y-bont. O ganol y prynhawn ymlaen
- 24** Bethel 5.00 Uno yn Nasareth (Sul y Pentecost)  
Nasareth 5.00 Parch Judith Morris  
Rehoboth 5.00 Bugail  
Eglwys Dewi Sant 11.00 Gwasanaeth Teuluol
- 31** Bethel 2.00 Gweinidog (C)  
Nasareth  
Rehoboth 10.00 John Hughes  
Eglwys Dewi Sant 10 Oedfa Gymunedol  
'All Saints  
Church' Llangorwen
- Mehefin**
- 7** Bethel 10.00 Trefn Lleol  
Nasareth 10.00 Bugail (C)  
Rehoboth 10.00 Huw Roderick  
Eglwys Dewi Sant 11.00 Cymun Bendigaid  
Capel Bethesda Tŷ Nant 2.00 Wil Griffiths

Annwyl Olygydd,

Ydy eich darllenwyr chi eisiau i Gymru fod yn wlad â miliwn o siaradwyr Cymraeg? Dyna'r targed mae Cymdeithas yr Iaith eisiau i Lywodraeth nesaf Cymru anelu ato.

Rydym yn herio'r pleidiau gwleidyddol i gynnwys y nod o sicrhau "Miliwn o siaradwyr Cymraeg" yn eu maniffesto ar gyfer etholiad 2016. Hoffem annog eich darllenwyr i rannu eu syniadau gyda ni ynghylch sut orau i gryfhau'r Gymraeg yn eu hardal nhw dros y blynyddoedd nesaf.

Yn benodol, rydym am glywed sylwadau pobl am sut i gyrraedd y targedau hyn yn ystod tymor nesaf y Cynulliad:

1. Cynyddu'r nifer o siaradwyr Cymraeg yng Nghymru, gan anelu at filiwn dros amser - mae hyn yn arbennig o bwysig yma yng Ngheredigion wrth i'r niferoedd sy'n siarad Cymraeg ddisgyn o dan 50% am y tro cyntaf erioed;

2. Atal yr allfudiad a chynnal cymunedau ynghyd â sicrhau llwybrau i ddod â Chymry Cymraeg yn ôl i'r wlad - mae pobl yn methu aros i fyw a gweithio yng Ngheredigion ond sut mae newid hynny?

3. Adfer y Gymraeg fel ei bod yn iaith bob dydd yn ein cymunedau o'r crud i'r bedd.

Rydym yn gofyn i bobl gyfrannu eu syniadau i'n gweledigaeth drwy fynd i [www.cymdeithas.cymru/2016ymlaen](http://www.cymdeithas.cymru/2016ymlaen), ebostio [post@cymdeithas.cymru](mailto:post@cymdeithas.cymru) neu ffonio 01970 624501 cyn yr 8fed o Fai

Yr eiddoch yn gywir,

Hywel Griffiths

Cadeirydd ardal Ceredigion Cymdeithas yr Iaith Gymraeg



## Ar wella

Rydym yn falch o glywed bod William Jenkins, Y Gelli, Taliesin, yn gwella ar ôl triniaeth yn Ysbyty Treforys yn ddiweddar. Hefyd, bod Vera Lewis, 6, Pencae, Taliesin, yn teimlo'n well ar ôl bod yn Ysbyty Bronglais. Dymuniadau gorau i chi'ch dau.

## Cydymdeimlad

Cydymdeimlir â Mrs Tegwen Evans, Penygraig, Bont-goch ar golli ewythr yn Nhynygraig, Ystrad Meurig yn ddiweddar.

## Ymdeoliad

Pob dymuniad da i Barry Morgan, 4 Stryd James, Tal-y-bont, sydd wedi ymdeole - go iawn y tro hwn!

## Tafarn Lwyddiannus

Llongyfarchiadau i'r Llew Gwyn, Tal-y-bont, sydd wedi'i dyfamu'n ail dafarn orau yng Ngheredigion yng nghystadleuaeth blynyddol CAMRA.

## Trafferth Gyda'r Carthffosiaeth

Cafodd cyflwr anfodhaol y system trin gwastraff yn ardal James St ei amlgy unwaith eto gyda gweithwyr yn gorfod clirio llygredd difrifol, yn enwedig yng ngardd 4 Stryd James. Mae'n ymddangos nad yw'r system trin dŵr gwastraff bresennol yn medru ymdopi â'r galw cynyddol, sydd yn codi cwestiynau difrifol am ddoethineb datblygiadau pellach yng ngwaelod pentref Tal-y-bont. Bydd Papur Pawb yn cadw golwg ar y sefyllfa.

## Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau i Steffan Thomas, Glas y Ddôl, Tal-y-bont, sydd wedi dathlu ei ben-blwydd yn ddeunaw oed ar

Arddangosfa

**'GWLAN'**

gan

**Ruth Jên**

Yr Hen Siop' Sgidiau  
Tal-y-bont

Llun 18, Mawrth 19  
a Gwener 22 Mai  
10-4pm

# Pobl a Phethe



*Llongyfarchiadau i Elgan Evans, Tŷ Nant a Siwan Jones ar eu priodas yng nghapel Bwlchgyroes, ger Llandysul. Priodwyd y ddau gan y Parchedig Guto Prys ap Gwynfor, gyda'r Parchedig Richard Lewis yn cynorthwyo. Roedd nifer o blant ysgol Llangynfelyn yno i ddymuno'n dda i Miss Jones wrth iddi droi yn Mrs Evans. Cynhaliwyd y wledd yng ngwesty Glanyrafon, Talgarreg lle darparwyd adloniant gan ffrindiau Siwan yng Nghôr y Wiber. Dymunwn pob hapusrwydd i'r ddau yn eu cartref newydd, Pantcoch, Cwmtynant.*

benwythnos cyntaf mis Mai

Hefyd i Arwel a Jill West, White Windows, Tal-y-bont, a fu'n dathlu eu priodas rhuddem ym mis Ebrill.

## Dau Fabi Newydd ym Maesyderi

Llongyfarchiadau i Ffion Southgate a Jamie Davies ar enedigaeth Ellen Lilly Davies ac i Siôn a Nicola ar enedigaeth Elis Wyn Jones yn ystod mis

Ebrill. Pob dymuniad da iddyn nhw.

## Cydnabyddiaeth i Ffotograffydd

Llongyfarchiadau i Arwyn Parry Jones, Isallt, Tal-y-bont, sydd wedi cyrraedd rhestr fer gwobr Ffotograffydd Wythnosol y Flwyddyn, yr unig un o Gymru i gyrraedd y rhestr.

## Merched y Wawr, Tal-y-bont a'r Cylch

Nos Lun, Ebrill 20ed cawfwd noson hwyliog dros ben gyda Mair Nutting yn ein diddanu. Cyflwynwyd hi gan Margaret Jones a hi hefyd ddiolchodd iddi ar ddiwedd y noson.

Roedd Mair wedi paratoi ei hun ar gyfer y noson gan dorchi ei llewys a gwisgo ffedog, rhoi lliain dros y byrddau a gosod cynhwysion coginio yn eu lle. Roedd hefyd wedi dod â Betsan ac Ellyw gyda hi, nhw fyddai'r morynion a'u gorchwyl fyddai diddanu'r gynulleidfa os byddai saib yn y coginio. Gwnaeth Betsan ac Ellyw eu gwaith drwy ein rhannu'n ddau fîm, tîm y "Papur Coch" a thîm y "Papur Gwyrdd", a chafwyd gornest glôs rhyngddynt. Tîm y Pupur Coch enillodd o un marc. Fe ddysgon ni lawer o ffeithiau am y byd coginio a gwahanol fwydydd yn y broses, e.e.fod mwy o gaffin mewn te nag mewn coffi, a mwy o brotein mewn caws nag mewn cig.

Tra roedd hyn yn digwydd roedd Mair yn paratoi pryd sawrus o Nwdls Cyw Iâr gyda'r cyfan yn digwydd mewn padell ffrio fawr ac arogl coginio hyfryd yn llenwi'r ystafell, ond nid ar arogl yn unig y bydd byw dyn. Cawsom damaid i'w brofi o'r Nwdls Cyw Iâr a phob un ohonom yn gwerthfawrogi'r blas, ond nid oedd hyn ond paratoad at y melysfwyd, dau fath o bwdin sef Torte Siocled a Roci Rôd. Y ddau yn uchel iawn mewn calorïau ond o am flas! Dywedodd Mair mai'r rhain oedd rhai o'i hoff rysetiau, felly dylem fod yn ddiolchgar iddi am rannu rhai o'i chyfrinachau coginio â ni. E.G.

## Cofiwch ymweld â gwefan Papur Pawb

Gwybodaeth am y papur, ei hanes a manylion cysylltu

Hefyd:

- Papur Pawb Sain – i'r rhai sydd â golwg diffygiol
- Tabl amseroedd bysiau yn yr ardal
- Ôl rifynnau'r papur
- .... a rhagor

Nodwyd y wefan hon gan:

Anthony Motors  
Volksvagen



**papurpawb.cymru**

**Iwan Jones**

Gwasanaethau Pensaernïol

Cynlluniau ar gyfer adeiladau newydd,  
estyniadau ac addasiadau

Gellimanwydd, Talybont,  
Ceredigion SY24 5HJ

[helen.iwan@btinternet.com](mailto:helen.iwan@btinternet.com)

01970 832760

# Ysgol Tal-y-bont



## Pêl-droed yr Urdd

Daeth y tymor pêl-droed yn gyffrous iawn ar Gaeau Blaendolau eleni pan fu tîm merched a thîm bechgyn yr ysgol yn cystadlu'n frwd yn erbyn ysgolion eraill o Geredigion. Chwaraeodd y bechgyn yn arbennig o dda yn ystod y dydd gan guro tîm cryf Ysgol Aberaeron. Ond methwyd symud ymlaen i'r rowndiau terfynol o drwch blewyn.

Ar y llaw arall, llwyddodd tîm y merched i gyrraedd y rownd gyn-derfynol. Wedi gêm dynn iawn, gorffennodd y gêm yn gyfartal ddi-sgôr. Cafwyd amser ychwanegol a rheol y gôl aur, ond doedd dim enillwyr eto. Felly roedd yn rhaid cael ciciau o'r smoty. Roedd yr awyrgylch yn drydanol a phobl o bob man yn heidio i brofi'r cyffro ac wedi'r holl firi collwyd y gêm o 4-3. Hoffai'r ysgol ddiolch o galon i Wyn, Karen a Bernard am eu cymorth ar y diwrnod ac i'r rhieni am ddod i nôl y plant.

## Ymweliad â Thraeth y Borth



Fel rhan o'n thema'r tymor hwn, 'Drychwch, Tir', cafodd dosbarth y Cyfnod Sylfaen ddiwrnod cyffrous iawn yn Y Borth. Cawsom gyfle i weld y bad achub a chlywed llawer o ffeithiau diddorol gan y criw. Uchafbwynt y dydd oedd cael eistedd yn y cwch a gwisgo'r wisg arbennig. Wedyn cawsom fynd i'r traeth lle bu pawb yn brysus iawn gyda'u rhwydi a'u bwcedi yn chwilotu yn y pyllau glan môr. Buom yn creu lluniau allan o wymon a cherrig ac yn chwilio am gregyn a broc môr diddorol. Roedd pawb wedi blino'n lân ar ôl diwrnod bendigedig!

## RSPB Ynys-hir




Aeth dosbarth Miss Morgan ar drip diddorol iawn i Ganolfan yr RSPB yn Ynys-hir ger Eglwys-fach yn ystod y mis. Roedd y plant wedi cael cyfle arbennig i ddefnyddio App ar yr iPad a astudio gwahanol fathau o borfa ar draws y warchodfa. Roedd yn rhaid defnyddio

technolog GPS wrth grwydro a darganfod y gwahanol blanhigion. Casglwyd llawer o ddata amrywiol yn ystod y dydd a thasg y plant oedd creu graffiau o'r wybodaeth hyn. Diolch yn fawr i Jenny, Monica a Bev am drefnu'r diwrnod ac am bob cymorth yn ystod y dydd.



## Cartŵn y Mis

*Yn y byd amaethyddol, y testun trafod mawr ar hyn o bryd yw'r gofyniad i dynnu coed allan o arwynebedd bob fferm yng Nghymru ar y ffurflen IACS sydd i'w dychwelyd erbyn Mai 15*



"Ond ma' llywodraeth Cymru yn cosbi ffermyr os oes coeden yng nghanol cae..."



# LLESOL



Mae gweithgareddau LLESOL yn mynd o nerth i nerth. Cynhaliwyd dau ddigwyddiad hollol wahanol i'w gilydd yn ystod mis Ebrill. Yn ystod wythnos gyntaf y tymor newydd aeth plant yr ysgol i'r Neuadd Goffa i gynnal cyngerdd o bigion Eisteddfod yr Urdd eleni. Yn ogystal â'r canu a'r llefaru arferol, gwelwyd perfformiadau offerynnol arbennig a dawnsio disgo egniol. Diolch o galon i rieni ac i ffrindiau'r ysgol am gynorthwyo'r plant i ddysgu eu darnau ac am eu paratoi i berfformio mor raenus. Trefnwyd y digwyddiad ar y cyd gyda'r Gymdeithas Rieni ac Athrawon ac roedd hi'n braf gweld aelodau o gymuned y pentref yn ymuno gyda ni hefyd.

Yr ail ddigwyddiad oedd trip i Ganolfan Hamdden Plascrug ac i'r pwll nofio. Roedd y weithgaredd yma'n boblogaidd iawn hefyd. Diolch yn fawr iawn i Anwen Curran, Cydlynnydd LLESOL am drefnu.

## Clybiau ar ôl Ysgol

Y tymor hwn rydym wedi penderfynu rhoi cyfleoedd ychydig yn wahanol i'r plant, felly yn ogystal â'r Clwb ar ôl Ysgol arferol, rydym yn cynnal clwb criced, clwb coginio a chlwb garddio. Diolch yn fawr i Anti Shân am bob cymorth gyda'r coginio.

## Ysgol Iach

Tro Dosbarth Miss Morris oedd mynychu Gŵyl Aml-sgiliau'r tymor hwn. Trefnwyd y digwyddiad gan dîm Pobl Ifanc Egniol Ceredigion a phwrpas y diwrnod oedd rhoi cyfleoedd i'r plant adeiladu ar eu sgiliau addysg gorfforol a chwaraeon. Roedd y plant wrth eu boddau'n ymarfer pasio, dal, symud a chydysymud drwy gymryd rhan mewn gweithgareddau hwyliog a difyr. Diolch yn fawr am y cyfle i fynychu.

## Tref a Tryst

Ar hyn o bryd mae rhaglen newydd gyffrous i'w gweld bob dydd Iau ar S4C gyda Tref y ci a'i ffrind Trystan. Fel rhan o'r rhaglen mae cyfle i blant o ysgolion Cymru i gystadlu i adeiladu tŵr enfawr Tîm Ysgol Tal-y-bont oedd Gethin, Caoimhe, Glain a Carys. Bydd yn rhaid aros i weld y rhaglen cyn gwybod a fu'r pedwar yn llwyddiannus. Pob hwyl i chi!  
*(Llun ar y dudalen flaen)*

**Afiaith**  
Gwasanaeth Cyfieithu

Profiadol • Proffesiynol  
Prydlon • Personol

Martin Davis  
Is-y-coed, Tre Talliesin, MACHYNLETH  
Powys SY20 8JG Cymru  
Ffôn/Ffacs +44 (0)1970 832230 [afiaith@aol.com](mailto:afiaith@aol.com)

*Rhian*  
trin gwallt gartref

25 mlynedd o brofiad  
gwasanaeth cyfeillgar, dibynadwy  
ffôn 832 612  
07835 525 553

**Morlan**  
Canolfan ffydd a diwylliant  
Centre for faith and culture

**DEG DROS DDEG:** y ddau ddigwyddiad nesaf yn y gyfres o 10 digwyddiad dros 10 mis i nodi dengmlwyddiant Morlan:

- **Stomp Llyfrau (7.30, nos Fercher, 20 Mai).** Noson o hwyl pan fydd 10 o bobl yn ceisio perswadio'r gynulleidfa i bleidleisio dros ei ddewis ef/hi o lyfr gorau'r 10 mlynedd diwethaf. Rhestr o'r llyfrau a'r cyfranwyr ar wefan Morlan. Arweinydd: Deian Creunant. Mynediad: £3.
- **Ar Dramp yn Dre (6.00, nos Fercher, 17 Mehefin).** William Troughton a Gareth Lewis yn arwain taith gerdded sy'n ymweld â deg lle o ddiddordeb yn Aberystwyth.

Manylion llawn: [www.morlan.org.uk](http://www.morlan.org.uk)

Morlan, Morfa Mawr, Aberystwyth SY23 2HW  
01970 417996; [morlan.aber@gmail.com](mailto:morlan.aber@gmail.com); @CenolfanMorlan

**Dydd Sadwrn 23 Mai**

**Hwyl gwerin yn y p'nawn hwyr.**

**Y Patshyn Glas, Talybont**

**Mwy o fanylion i ddod**

**Edrychwch am y posteri**

## Garej Paul Joseph

01970 822220

**Pob Math o Geir  
Gwasanaeth a Thrwsio  
Diagnosteg a Weldio  
Paratoi a Thrwsio MOT**

**Dan Glo, Lon Glanfred, Llandre**

## argraffu da am bris da

**yl Lolfa** holwch Paul am bris ar [paul@yolf.com](mailto:paul@yolf.com)  
01970 832 304 [www.yolf.com](http://www.yolf.com)

## Y LLEW GWYN TAL-Y-BONT

Mae Gareth, Bev a Carl yn edrych ymlaen i'ch croesawu i'r Gwyn.  
**Ar agor bob dydd**

Bwyd ar gael 7 diwrnod yr wythnos 12.00 tan 9.00  
Nos Fawrth: Pei a Peint 6.00 tan 9.00 £7.50  
Nos Iau: Cyri a Peint 6.00 tan 9.00 £7.50

Cinio Dydd Sul 12.00 tan 3.00  
(Un cwrs: £7.95 Dau gwrs £9.95)  
Ystafelloedd ar gael

01970 832245  
[garethwhitelion@outlook.com](mailto:garethwhitelion@outlook.com)

## Cymdeithas y Chwiorydd



Cynhaliwyd y cyfarfod i ddathlu Gŵyl Ddewi ar brynhawn Mawrth, 10 Mawrth, yng nghapel Rehoboth, Taliesin, ac estynnwyd croeso i'n gwsteion, sef Glyn a Lona Jones, Aberystwyth, a Margaret Rees, Llanilar. Cafwyd prynhawn hyfryd yn eu cwmni, gyda Glyn yn llywio'r cyfarfod ac adrodd ambell gerdd, a Lona fel unawdydd yn canu nifer o'r hen alawon Cymreig i gyfeiliant Margaret. Roedd pawb wedi mwynhau'r datganiadau'n fawr iawn, a diolchwyd yn gynnes i'r tri gan Eirlys Jones. Yna aeth pawb i'r festri i fwynhau te a chacennau hyfryd wedi eu paratoi gan Ann Jenkins ac Ann Jones.

Daeth y tymor i ben am eleni ar brynhawn Mawrth, 14 Ebrill, pan fwynhaodd 23 ohonom, a'n gwraig wadd, de prynhawn yng ngwesty'r Conrah, a hithau'n brynhawn heulog o wanwyn. Estynnodd Eiriona groeso i bawb, ac ar ôl inni fwynhau'r te bendigedig, cyflwynodd ein gwraig wadd, sef Beti Griffiths, Llanilar. Yn ei ffordd ddihafal arferol cyflwynodd Beti ddarluniau a hanesion diddorol am rai o'r capeli sy'n golygu llawer iddi, yn eu plith gapel Bethesda Tynant, a Soar y Mynydd. Felly, gan ddiolch i Beti ac i staff gwesty'r Conrah, cafwyd prynhawn dymunol iawn yng nghwmni'n gilydd i gloi'r tymor.

## Cyflwyno Diffibrilwyr yn Llangynfelyn

Ar ddydd Mawrth 21 Ebrill daeth Sharon Owen o Galonau Cymru i Siop Cynfelin, Tre'rddol i gyflwyno dau ddiffibrilwr i blwyf Llangynfelyn. Bydd un yn cael ei osod tu allan i'r siop yn Nhre'rddol a'r llall wrth capel Rehoboth yn Nhaliesin.

Casglwyd digon trwy gyfraniadau lleol i brynu'r ddau, ond yn awr, mae angen codi digon eto i brynu diffibrilwr arall, ar gyfer y trigolion sydd yn byw yn y fraich hir o'r plwyf sydd yn ymestyn tuag at Ynyslas, i sicrhau bod peiriant yn gyfleus i bob rhan o'r plwyf.

Daeth nifer o'r plwyfolion i'r cyflwyniad sydd yn dangos eu bont yn ymwybodol o bwysigrwydd y teclynnau newydd. Mae tuag ugain wedi hyfforddi yn barod i'w defnyddio ac mae gwers arall wedi'i threfnu yn y dyfodol agos.



Cyflwyno peiriannau'r galon i gymuned Llangynfelyn yng nghwmni aelodau pwyllgor Cwrfa Chwist, Chwb Bowls Machynlleth a chynrychiolydd Calon Cymru. O'r chwith i'r dde: Lyn Roberts, Glenys Evans, Sharon Owen, Barbara Jenkins a Mai Leeding, gyda chefnogwyr, tu allan i Siop Cynfelin.

## Hetiau Pasg Tregerddan



Bu rhai o drigolion Cartref Tregerddan wrthi'n paratoi eu hetiau ar gyfer cystadleuaeth Het Basg a gynhaliwyd yno yn ddiweddar. Roedd y beirniadu yn waith anodd ond fe ddewisodd Kath Lewis y buddugwyr, sef Mrs Carol Port (y wobwr gyntaf), Mr Walford Hughes (ail wobwr) a Mrs Anne Watkin (trydydd).



# Ffeiriau Tal-y-bont

Diolch i Gareth Pritchard, y Llew Gwyn, Tal-y-bont, am anfon dau lun i Bapur Pawb. Mae'r cyntaf wedi'i dynnu tua 1905-1910 gan Thomas Lloyd, ffotograffydd o Heol y Wig, Aberystwyth. Mae gen i hen lyfr o'r enw 250



*Views of Aberystwyth & District* sy'n cynnwys y llun hwn ac un a dynnwyd ychydig wedi hynny o'r olygfa i'r ochr dde o'r llun. Erbyn hynny roedd y ceffyl a'r gert wedi cyrraedd canol y patsyn

glas a'r bachgen gyda'r ci yn dal am gael ei lun wedi'i dynnu. Nid brif ffair y flwyddyn yw hon ond un o'r ffeiriau llai a gynhaliwyd ym misoedd Mawrth, Mai neu Fedi. Gyda llaw, ar y chwith nesaf i siop y Golden Key, mae'r Ddarllenfa a sefydlwyd ddiwedd y 19eg ganrif. Rhoddodd y Ddarllenfa gyfle i drigolion y pentref ehangu eu gorwelion drwy ddarllen y llyfrau amrywiol a gedwid yno.

Mae'r ail lun a dynnwyd gan E O Jones yn dyddio o tua 1908. Mae'n dangos y ffair a chynhaliwyd ar 17 Hydref bob blwyddyn rhwng 1823 a'r 1950au. Roedd hwn yn ddiwrnod mawr i'r pentref (yn debyg i ddiwrnod y Sioe heddiw). Byddai'r tafarndai ar agor o doriad gwawr hyd at hanner nos a stondinau dirifedi yn gwerthu pob math o fwydydd, llysiau, dillad a nwyddau. Roedd plant yr ardal wrth eu boddau gan brynu melysion a chael hwyl ar y cychod siglo a'r *merry-go-round*. Roedd y *merry-go round* yn cael ei bweru gan injan ager a gellir gweld y stêm yn codi o'r simnai ar ei ben.



Gyda'r hwyr byddai'r llanciau ifanc yn tyrru i'r ffair i gystadlu ar y stondinau saethu a chnau coco. Roedd hefyd yn gyfle i garu ac ar adegau cafwyd ambell i ffrwgd. *Ffair Ffylliaid* oedd yr enw a ddefnyddid gan rai am y ffeiriau hyn, yn arbennig gan elfennau'r gymdeithas a ffrmai ar y fath rhialtwch.

Yn y llyfr ar E O Jones, *Un Ennyd Fer* gan Hefin Llwyd, mae ffotograff o'r un ffair a dynnwyd o'r grisiau a oedd ar dalcen ysgubor y Llew Du. Mae modd gweld y cychod siglo a'r stondinau yn y llun hwnnw ond nid y *merry-go-round*. Rhoddodd Hefin y dyddiad Gorffennaf 1908 i'r ffotograff ond tybiaf mai ffair Hydref yw hon. Mae'n siŵr y bydd gan Hefin ateb ar gyfer y rhifyn nesaf o'r papur

G.J.

## Diwrnod Twm Siôn Cati yn Siop Cynfelyn

Ers rhai blynyddoedd bellach mae trigolion Tregaron wedi bod yn dathlu Diwrnod Twm Siôn Cati ar 17 Mai. Eleni mae Siop Cynfelyn am ymuno yn yr hwyl gyda dathliad bach eu hunain. Er nad oes modd dweud os oedd y Twm hanesyddol yn fwy o leidr pen ffordd nag arwr, mae'r llên gwerin a dyfodd o'i amgylch wedi ysbrydoli llawer o awduron dros y canrifoedd, gan gynnwys T.J. Llewelyn Pritchard, George Borrow, T. Llew Jones a Meinir Wyn Edwards.

Er mai ffigwr llwyr ddychmygol ydi'r cnaf erbyn heddiw, mae ychydig o dystiolaeth hanesyddol amdano wedi goroesi yng nghofnodion ei fro. Mae'n debyg iddo gael ei eni yn 1530 ym Mhorth-y-ffynnon ger Tregaron, ac yntau'n blentyn llwyr a pherth i un o ddisgynyddion teulu Gwaethfod. Thomas Jones oedd ei enw genedigol (Twm Siôn), ac enw ei fam oedd Catherin Jones (Cati). Mae ei ewyllys ar gael i ni, ynghyd â'i linach (mae rhai o dywysogion Ceredigion ym mhlith ei hynafiaid) a hyd yn oed pytiau o'i farddoniaeth. Enillodd gadair yn Eisteddfod Llandaf yn 1561; efallai'r tro olaf i ni weld prifardd yn byw ar herw.

Tra buodd fyw, roedd yn ddigon o gymeriad i danio coelcerth yn nychymyg y werin. Yn y straeon a adroddwyd amdano roedd Twm yn aml yn ymgorffori'r dyhead hwnnw am weld y tlawd yn cael chwarae teg, ac am weld y balch a'r trahaus yn cael eu haeddiant. Fel arwr gwerin roedd yn chwarae castiau clyfar, yn caru gyda'r merched, yn cuddio yn y bryniau diarffordd ac yn dwyn drosto'i hun ac eraill. Drwy ei gyfrwystra a'i hyder, daeth trwy bob dim gyda chwinc a gwên.

Eleni mae Siop Cynfelyn wedi gwahodd disgyblion ysgolion Llangynfelyn a Thal-y-bont i dathlu Diwrnod Twm Siôn Cati drwy dynnu llun ohono (blynyddoedd 1 a 2) neu ysgrifennu stori newydd amdano (blynyddoedd 3, 4, 5 a 6). Bydd y llun a'r stori orau'n ennill gwobr. Mae gwahoddiad i unrhyw un o blant yr ardal gymryd rhan yn y gystadleuaeth wrth gwrs, ond i'r lluniau a'r straeon gyrraedd y siop mewn da bryd cyn Mai 17. Ar y diwrnod ei hun bydd Dafydd Wyn Morgan, brodor o Dregaron, yn dod i'n diddanu wedi ei wisgo fel Twm Siôn Cati, i adrodd rhai o'r hen straeon amdano ac i wobrwyo'r llun a'r stori orau. Bydd y digwyddiad yn cychwyn am 3pm yng nghaffi'r siop.


Gwilym Morus-Baird

### Arddangosfa Uwchraddedigion a Sioe Gradd Israddedigion

18 – 28 o Fai

10-5pm

Yr Ysgol Gelf, Buarth Mawr,  
Aberystwyth



Am  
**GOFEBAU ARBENNIG  
BEDDARGRAFFIADAU  
ADNEWYDDU O SAFON  
ARWYDDION AR DAI A  
BUSNESAU**

---

*Gofynnwch am bamffled  
rhad ac am ddim*

---

**James Memorials  
Vicarage Crossing,  
Llandre, Bow Street  
Ffôn: (01970) 820 111**

## Garej Davmor

- Petrol a Diesel
- Gwasanaethu, trwsio, MOT a theiars
- Adnewyddu blychau gêr a gosod cydyddion
- Llogi fan a bws mini, gwerthiant ceir
- Siop Gyfleustra drwyddedig

**Y garej gwasanaeth llawn yn Nhal-y-bont**  
01970 832278 [www.davmorgarage.co.uk](http://www.davmorgarage.co.uk)

**STORFA CANOLBARTH CYMRU**



**MID WALES  
STORAGE**

Storfa Cartref a Busnes



Ystafelloedd storio ar gyfer eich anghenion  
Monitro Diogelwch 24 awr—Wedi ei wresogi



Bocsas a bubblewrap ar lein  
[www.boxshopsupplies.co.uk](http://www.boxshopsupplies.co.uk)

Ffôn: 01654 703592  
[www.midwalesstorage.co.uk](http://www.midwalesstorage.co.uk)



Heol Y Doll, Machynlleth, SY20 8BQ

INVESTORS | BUDGODDWR  
IN PEOPLE | MEIN FOS

# Dathliadau dwy-flwydd Siop Cynfelyn

Bu Siop Cynfelyn yn dathlu ei phen-blwydd yn 2 mlwydd oed dros benwythnos Gŵyl y Banc, 2-4ydd o Fai – roedd hyd yn oed cacen pen-blwydd ar gael i'r cwsmeriaid! Hoffai'r Siop ddweud gair anferth o ddiolch i'w gwirfoddolwyr, ei chefnogwyr, a'i chwmeriaid am eu cefnogaeth a'u gwaith caled dros y ddwy flynedd diwethaf. Gan edrych ymlaen am flynyddoedd i ddod.

## Taith Tywys y Cletwr: Côt y Bore Bach, Mai 10fed, 6.45yb

Bydd 'The Ladybird' yn tywys taith gerdded i fyny'r Cletwr yn ystod Côt y Bore Bach. Dechrau yn Siop Cynfelyn am 6.45yb – rhaid holi am le, gan fod llefydd yn brin. Taith tywys yn rhad ac am ddim, er derbyn rhoddion. Yn anffodus, ni chaniateir cŵn. Peidiwch ag anghofio eich binocwlars. Ffoniwch 01970 832113, neu e-bostiwch cletwr@cletwr.com i gadw lle. Taith cyfrwng Saesneg yw'r daith hon.

## Cadw'n ddiogel ar y We, Dydd Mercher 13eg Fai, 3yp, Siop Cynfelyn

Dewch draw i Gaffi Cynfelyn ar gyfer rhai awgrymiadau ar sut y gallwch chi (gobeithio) osgoi'r gwaethaf o'r bobl ddrwg sy'n llechu ar y Rhyngwlad. Dysgwch sut i fanteisio ar y ddyfais wych hon heb i'ch manylion personol gael eu dwyn, eich lluniau digidol gwerthfawr cael eu dileu, neu'ch cyfrifon banc eu gwagio! Ffoniwch 01970 832113, neu e-bostiwch cletwr@cletwr.com i arbed eich lle

## Llyfrgell Cynfelyn, Siop Cynfelyn

Mae Llyfrgell fenthyg iaith Gymraeg Siop Cynfelyn yn dechrau siapio o ddiwrnod. Ar ôl derbyn £800 o gymhorthdal gan Gronfa Eleri a Ras yr Iaith, mae'r gwaith wedi cychwyn o brynu ystod wych o lyfrau iaith Gymraeg i lenwi'r silffoedd. Mae'r llyfrau ar gael i unrhyw un fenthyg – ond i chi lenwi'r llyfr gonest. Mae hyd yn oed adnoddau dysgu ar gyfer dysgwyr yr iaith. Bydd mwy a mwy o lyfrau yn cyrraedd y silffoedd dros yr wythnosau a misoedd nesaf – ewch draw i gael cip! Pe dymunwch, mae'r llyfrgell yn hapus i dderbyn unrhyw roddion o lyfrau iaith Gymraeg.

## Oriel y Cwtch, Siop Cynfelyn

Yn ystod mis Mai mi fydd gwaith Flic Eden yn cael ei arddangos am yr ail fis – er mi fydd hi'n newid nifer o'r lluniau, felly os ydych wedi ymweld yn barod ac yn hoff o'i waith, mi fydd rhywbeth newydd i'ch difyrnu!

# Ysgol Llangynfelyn

## Priodas Miss Jones



Ar fore dydd Sadwrn Ebrill 25ain roedd priodas Miss Siwan Jones a Mr Elgan Evans. Aeth llawer o'r plant i lawr i'r capel ym Mwlchgyroes i weld y briodas. Roedd Miss Jones yn edrych yn brydferth iawn a mwynhaodd y plant daflu confetti drosti! Cyflwynwyd rhodd i Miss Jones cyn iddi adael yr ysgol sef print 'Gwelle' arbennig gan Ruth Jên. Bydd hi'n anodd iawn cofio galw Miss Jones yn Mrs Evans ond mae'r plant wedi dechrau arfer yn barod!

## Sesiwn Golf

Daeth aelodau o Glwb Golf Aberystwyth i'r ysgol i gynnal sesiwn hwyliog iawn i ddysgu sgiliau golff i'r plant. Dysgodd y plant sut i daro'r bêl yn bell ac yn agos. Roedd yn brynhawn hyfryd a mwynhaodd bawb yn fawr iawn.

## Croeso

Croesawn Oska Tvedt atom i'r Dosbarth Derbyn. Gobeithiwn y bydd yn hapus iawn gyda ni yma yn Ysgol Llangynfelyn.

## Prosiect COBWEB

Aeth Dosbarth Mrs Evans i'r RSPB yn Ynys-hir i gymryd rhan mewn prosiect cyffrous 'COBWEB'. Prosiect ydyw wedi'i gynllunio gan Brifysgol Caeredin mewn ardaloedd Biosffêr yng Nghymru, Yr Almaen a Gwlad Groeg. Yng nghwmni Monica a Jenny bu'r plant yn dysgu am drychfilod a sut maent wedi addasu i fyw mewn cynefinoedd gwahanol. Wedyn, cerddont i'r Domenlas i wneud arolwg o'r creaduriaid a'r planhigion yno. Defnyddion nhw ffôn symudol i gofnodi'r data. Mae amryw o ardaloedd yn Biosffêr Dyfi yn cymryd rhan. Mae rhagor o wybodaeth i'w gael ar <https://dyfi.cobwebproject.eu>



Tilly'n canolbwyntio ar y Prosiect COBWEB

# GOLCHDY LLANBADARN

CYTUNDEB GOLCHI  
GWASANAETH GOLCHI  
DWFES MAWR  
CITS CHWARAEON

JEAN JAMES  
Ffôn: 01970 612459

Valrosan, Pwllhobi, Llanbadarn Fawr,  
Aberystwyth SY23 3SL



BWYD DA ...  
CWMNI DA ...

yBlac  
TALYBONT

## BWYTY A BAR

Cinio 12.00-2.30 Swper Nos 6.00-9.00 Cinio Sul 12.00-3.00

Partion | Digwyddiadau | Llogi ystafell | Pen-blwydd  
Dathlu | Priodasau | Parti Bedydd | Te angladd

Swydd blaen tŷ ar gael cysylltwch â ni!

Gwelwch chi'n fuan... Cofion Siôn, Catrin a'r tim  
01970 832 555 [croeso@yblac.co.uk](mailto:croeso@yblac.co.uk)



# Ysgol Llangynfelyn



## Gŵyl Chwaraeon Aml-sgiliau

Aeth plant CA2 i astrotyrff y Brifysgol yn Aberystwyth am eu hail sesiwn aml-sgiliau eleni. Yng nghwmni plant o ysgolion eraill ardal Aberystwyth, cawson nhw gyfle i flasu amryw o chwaraeon gwahanol. Roedd y plant wrth eu bodd yno.

## Ymweliad â Thraeth y Borth

Themâu'r Cyfnod Sylfaen y tymor yma yw 'Traeth' a 'Drychwech! Tirl!'. Fel ysbrydoliaeth i ddechrau'r thema 'Traeth' aeth y dosbarth i draeth y Borth am y prynhawn. Bu'r plant yn edrych yn y pyllau glan môr a buont yn casglu cregyn, cerrig a gwymon. Cafwyd picnic bach ar y tywod cyn mynd adref.



Finn yn y Ty Gloyn Byw

# S4C



## Parch

9.00  
31 Mai

Ffydd, Gobaith, Carlad.  
Cyfres ddrama newydd.

#parch  
s4c.cymru

# Cyngor Cymuned Ceulanamaesmawr

Adroddiad o'r prif faterion a drafodwyd yng nghyfarfod mis Ebrill.

## Tyllau yn y Ffordd

Adroddodd y Clerc iddi gysylltu gyda'r Cyngor Sir er mwyn cael diweddariad ar y sawl achos o dyllau dros ffordd amrywiol Ceulanamaesmawr. Derbyniwyd y newyddion da gan y Cyngor Sir fod gwaith ar y tyllau o amgylch y groesffordd ger Llety Ifan Hen, Bont-goch, a sawl twll ar hyd y trac tua Llety Ifan Hen, yn mynd i gychwyn ar ddiwedd mis Ebrill/ddechrau Mai. Dywedwyd hefyd y bydd archwiliad o ffordd Cwm Ceulan.

## Llywodraeth Cymru: Rhaglen 2015 ar gyfer Cymru'n Cofio 1914-1918

Derbyniwyd hysbys fod raglen 'Cymru'n Cofio'r' Rhyfel Byd Cyntaf ar gael ar wefan 'Cymru'n Cofio'. Mae lluo o arddangosfeydd a digwyddiadau wedi'u trefnu ar gyfer y blynyddoedd nesaf – nifer ohonynt yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth. Ewch i <http://www.cymruncofio.org/1915-1918-programme/> i lawr lwytho'r rhaglen llawn. Byddai'r Clerc hefyd yn hapus i ddanfon copi digidol trwy e-bost: [j.lowri@yahoo.co.uk](mailto:j.lowri@yahoo.co.uk).

## Adroddiad Ariannol Chwarterol [Ionawr – Mawrth]

Cyflwynodd y Clerc yr adroddiad i'r Cyngor. Rhoddodd y Cyngor ei sêl bendith ar yr adroddiad.

## Cyfarfod Blynyddol Cyngor Cymuned Ceulanamaesmawr

Bydd Cyfarfod Blynyddol Cyngor Cymuned Ceulanamaesmawr ar nos Lun, 18fed o Fai, 7.30yh. Croeso i aelodau o'r cyhoedd fynychu. Nodir y cynhelir y cyfarfodydd trwy gyfrwng y Gymraeg, felly os oes angen cyfieithu ar y pryd arnoch, neu gwyddoch am unrhyw un fydd angen y gwasanaeth, a wnewch chi gysylltu â'r Clerc: 01654 781302/[j.lowri@yahoo.co.uk](mailto:j.lowri@yahoo.co.uk).

## Ymateb y Cyngor i Bapur Gwyn, Llywodraeth Cymru: Datganoli, Democratiaeth a Chyflawni – Diwygio Llywodraeth Leol

Trafodwyd y ddogfen yn ystod y cyfarfod diweddar, ac fe gytunwyd i ddanfon ymateb y Cyngor i Lywodraeth Cymru. Cytunwyd i gefnogi ymateb ffurfiol Un Llais Cymru, (dyddiedig 22 Ebrill, 2015). Pwysleisiwyd y byddai elfen gymunedol y Cyngorau Cymuned yn diflannu os byddai cynghorau bach mewn ardaloedd gwledig, fel Ceulanamaesmawr, yn cael eu huno. Tynnwyd sylw'r ymgynghoriad at bwysigrwydd Cynghorau Cymuned sydd â chyswllt agos ac uniongyrchol â'u milltir sgwâr.

## Cyngor Cymuned Llangynfelyn Cyfarfod Blynyddol

Nos Lun 11 Mai 2015  
am 7 y.p.  
yn Llanfach, Taliesin

## Llwyddiant yn Rali'r Sir i Sefydliad y Merched Taliesin

Llongyfarchiadau mawr i Sefydliad y Merched ar eu llwyddiant yn Rali'r Sir ddydd Sadwrn 18 Ebrill yn Ciliau Aeron. 'Roedd cystadleuaeth uchel ym mhob dosbarth a thros 30 eitem mewn sawl dosbarth. Taliesin enillodd y mwyaf o farciau hefo dros 50 gan ennill hefyd am yr eitemau gorau yn y dosbarth Coginio a'r Adran Flodau.

## Crynodeb o'r canlyniadau:

5 gwobr 1af am : sgons caws, tarten Bakewell, Marmaleid anghyffredin, clustog bychan o waith ffelt, gosodiad blodau 'gwyrd' a gwyn'.

4 Ail wobwr am : sgons caws, roliau bara, gosodiad blodau 'gwyn a gwyrd' a gosodiad blodau 'Dathliad'.

4 Trydydd gwobr am: gosodiad blodau 'yr ardd yn deffro', tarten Bakewell, petit fours a ffotograffiaeth 'dau ddrws'

Canmoliaeth uchel am: decoupage a gosodiad blodau 'yr ardd yn deffro'.

Roedd wyth yn cystadlu ar arddangosfa cydweithredol ar y teitl 'Canmlwyddiant' a Taliesin dyfarnwyd yn ail gan ennill canmoliaeth am eu dehongliad o'r thema a'r eitemau unigol o fewn y gosodiad.

Chris Gilbert enillodd gwpan am ddau osodiad blodau gorau'r Rali a Beti Wyn gafodd y darian am yr eitem orau yn yr adran coginio ynghyd a cwpan am y nifer fwyaf o farciau yn yr adran.

Buom yn ystod y mis yn ymweld â Chastell Aberteifi ar ei newydd wedd a chael ein tywys o gwmpas y dref gan Helen Palmer ein Archifydd Sirol. taith hynod ddiddorol a'r gwaith o adfer safle y Castell yn arbennig a dda.

Mae yna fis prysur a chyffrous o'n blaenau wrth ymweld â'r Amgueddfa yn Aberystwyth, yna Sir Fôn i ddathlu sefydliad y Mudiad 100 mlynedd yn ôl, ymweld â'r Hafod i brofi bywyd yno gan mlynedd yn ôl ar ddydd Sadwrn olaf y mis ac rydym yn edrych ymlaen i fynd i Lundain hefo Ann Humphries sydd wedi cael gwahoddiad i barti yn yr ardd ym Mhalas Buckingham ar yr 2 ail Fehefin ....llond lle o hwyl a hanesion difyr i ddathlu cwmni ein gilydd.



Cyngor Cymuned Ceulanamaesmawr

## Cyfarfod Blynyddol

7.30yh

Nos Lun 18 Mai 2015

Neuadd GoffaTal-y-bont

Croeso i Bawb

Os oes angen gwasanaeth cyfieithu ar y pryd [Cymraeg-Saesneg], a wnewch chi gysylltu gyda'r Clerc mewn da bryd cyn y cyfarfod

01654 781302/[j.lowri@yahoo.co.uk](mailto:j.lowri@yahoo.co.uk)

*If you require a simultaneous translation service [Welsh-English], please contact the Clerk in good time before the meeting*



**Cynhadledd Maniffesto a Gweledigaeth i'r Gymraeg 2016+**  
**Canolfan yr Urdd, Bae Caerdydd**  
**16eg Mehefin 2015**

**Gwahoddiad**

Mae Dathlu'r Gymraeg yn trefnu Cynhadledd yng Nghanolfan yr Urdd, Caerdydd, dydd Mawrth 16 Mehefin.

Amcan y Gynhadledd yw paratoi Maniffesto a Gweledigaeth i'r Gymraeg 2016+ fydd yn cynnwys ein syniadau i hybu'r Gymraeg a'i diogelu o fewn ein cymunedau.

Bydd y meysydd isod yn cael eu trafod er mwyn llunio'r strategaethau

Trechu Tlodi  
 Hawliau  
 Cymuned  
 Addysg

Gobeithio y medrwyd ymuno gyda ni, cysylltwch â Gaynor Jones am fanylion llawn.

Cofion gorau

Penri Williams  
 Cadeirydd  
 Dathlu'r Gymraeg  
[www.dathlu.cymru](http://www.dathlu.cymru)

Cysylltwch gyda [gaynorjones@dathlu.org](mailto:gaynorjones@dathlu.org) i gofrestru erbyn 1af Mehefin/ 07775 847710

[www.dathlu.cymru](http://www.dathlu.cymru)  
[https://www.facebook.com/@Dathlu\\_Cymraeg](https://www.facebook.com/@Dathlu_Cymraeg)

# Y Gair Olaf



Wel, erbyn i chi agor y papur a darllen hwn mi fydd e drosodd. Na dim y dywysoges newydd na'r gwaith ffordd yn y pentref, ond etholiad 2015.

Dwi'n sgrifennu hwn gydag ychydig ddiwrnodau i fynd heb unrhyw syniad o'r canlyniad.

Rhaid cyfaddef mod i'n dechrau blino ar y taflenni, y darllediadau gwleidyddol a'r dadleuon teledu ond mae hi wedi bod, a gobeithio am fod, yn etholiad ddi-ddorol.

Y peth pwysicaf sydd wedi digwydd yw cymaint mwy o sylw mae Cymru wedi ei gael trwy'r dadleuon teledu. Am y tro cyntaf mae Prydain oll wedi clywed am ein pryderon yng Nghymru ac (heb ddatgelu gormod o'm tueddiadau gwleidyddol) dwi'n meddwl bod Leanne Wood wedi gwneud gwaith arwrol yn cyfleu ein sefyllfa a'r diffyg cyfartaledd sydd rhwng ardaloedd o Loegr a Chymru.

I ddweud y gwir mae'r tair dynes sydd wedi ymddangos (Leanne Wood, Plaid Cymru, Nicola Sturgeon, SNP a Natalie Bennett, y Blaid Werdd) wedi gwneud yn eithriadol o dda gan ddangos gymaint mas o gyswllt mae'r prif bleidiau, gyda'u harweinyddion yn taflu bai at ei gilydd, yn hytrach na thrafod eu polisiau. Roeddent yn hen ffasiwn i'w cymharu â ffresni'r tair merch oedd yn trafod eu polisiau blaengar.

Ta waeth, bydd y gair olaf wedi bod gyda chi a fi, trwy'r blychau pleidleisio a jyst gobeithio daw sefyllfa iachus o ba bynnag ganlyniad fel ein bod yn cael ein llywodraethu gan gorff fydd yn parhau barm a phŵer y bobol - sef hanfod ein democratiaeth!!!

Fe ddyle'r gair olaf fod gyda'r bobol bob tro.

Harry James



**Gweithio gyda'n gilydd i gadw'n gynnes a gwastraffu llai**

Yn awr gallwn gynnig ymweliadau Hyfforddiant Ynni Cartref **AM DDIM** i bobl sy'n byw mewn cartrefi anodd eu gwresogi yng Ngheredigion

Ariennir y cynllun gan Lywodraeth Cymru ac mae llefydd yn brin, felly ffoniwch Pete ar **01970 633394 AR UNWAITH** neu e-bostiwch [peterh@ymlaenceredigion.org.uk](mailto:peterh@ymlaenceredigion.org.uk)

“ Mae'r Clwb Clyd wedi fy helpu i gadw'n gynnes yn rhatach. Fe wnes i arbed arian yn syth gyda'r archeb gyntaf drwy'r clwb tanwydd lleol. Yna cefais help ganddynt i gael gwell tariff trydan, ac rwy'n talu £208 yn llai i gadw'r un mor gynnes! Gwych! ”  
 Jon, Ceredigion

**Clwb Clyd – Menter gymunedol:**

- Ymunwch â chiwch tanwydd lleol neu gael cymorth i ddechrau un eich hunan
- Defnyddiwch ynni'n ddoeth yn eich cartref
- Dewch i wybod a allai cyfrifon tanwydd helpu gyda'ch biliau
- Cyngor ar gynlluniau grant



[www.ymlaenceredigion.org.uk](http://www.ymlaenceredigion.org.uk)  
[/ymlaenceredigion](https://www.facebook.com/ymlaenceredigion)



**Y Fframdy**  
 Mae'r gweithdy yn darparu gwasanaeth fframio dychmygus o'r safon uchaf.  
 Cewch ddewis o amrediad eang o siapiau gosod a fframiau.  
 Bydd y fframdy'n gallu darparu ar gyfer unrhyw anghenion unigol.  
 Y Fframdy, Glanceri, Y Borth, Ceredigion SY24 5JA  
 Ffôn: 01970 871042  
 Symudol: 07773 846659

**Bistro Gannets**  
  
**Bwyd a Gwin Da**  
 7 St James Square, Aberystwyth  
**617164**  
 Ar agor Llun i Sadwrn  
 12-2 a 6-9.30

**TEIARS HUW LEWIS TYRES**  
**Teiars Aliniad Olwyn Ecsôsts Batris Brêcs Hongiad Bar tynnu Gwasanaeth MOT**  
**HUWLEWISTYRES.COM**  
**Glanyrafon Rhodfa'r Parc**  
 Am y pris gorau a dewis eang o deiars cysylltwch â ni drwy'r wefan neu galwch heibio am gyngor.  
 Am docyn disgownt ar gyfer alinio eich car ewch i'n gwefan **ALIGNMYCAR.CO.UK**  
 Archebwch eich MOT nesaf ar ein gwefan.  
**ABERYSTWYTH 01970 611166 MACHYNLLETH 01654 700000**  
**LLANBED 01570 422221**

# Chwaraeon



## Tîm bechgyn Tal-y-bont

Dyma dîm pêl-droed Tal-y-bont dan 14 sydd wedi cael tymor da eleni yng Nghynghrair Ieuencid Aberystwyth. Mae'r gemau wedi bod yn agos iawn yn erbyn timau sydd â bechgyn blwyddyn yn hŷn. Cafodd y tîm lwyddiant yn nhwrmamaint Felin-fach wrth ddoed yn ail yn yr adran dan 13. Mae'r tymor wedi dod i ben erbyn hyn ac mae'r trwrnameintiau ar fin cychwyn. Pob lwc i holl dimau Tal-y-bont yn y misoedd nesaf. Diolch hefyd i Wyn Benjamin, Tal-y-bont ac i Andy Humphries, Bow Street am eu gwaith caled gyda'r bois.

## O Fewn Cyrraedd

Ystyriwch sefyllfa gohebydd chwaraeon Papur Pawb sy'n ysgrifennu'r darn hwn gydag un gêm yn weddill o dymor cyffrous Clwb Pêl-droed Tal-y-bont. Hoffai adrodd fod y clwb wedi ennill pencampwriaeth Adran 1 Cynghrair Cambrian Tyres am y tro cyntaf erioed ond bydd y rhifyn hwn o'r papur yn ymddangos ddiwrnod cyn y gêm olaf yn erbyn Eilyddion Penrhyn-coch - ac felly nid oes modd adrodd hynny. Ond mae'r gobeithion yn uchel, gyda Phenrhyn-coch ar waelod y tabl, siawns y gall Tal-y-bont ennill yr un gêm dyngedfennol honno i goroni tymor anhygoel.

Ni fu'r daith yn un rhwydd. Adroddwyd yn y rhifyn diwethaf am y fuddugoliaeth allweddol yn erbyn Padarn United. Wedi hynny collwyd 0-3 yn erbyn Bow Street ac roedd y gobeithion o ennill y bencampwriaeth yn pylu'n gyflym. Ond yn ffodus methodd y ddau glwb a oedd hefyd yn y ras â manteisio ar y sefyllfa, gan gollu pwyntiau pwysig. Erbyn wythnos olaf Ebrill roedd gan Dal-y-bont ddwy gêm yn weddill a rhaid oedd ennill y ddwy.

Eilyddion y Coleg oedd y gwrthwynebwyr ar Gae'r Odyn Galch ar noson oer ond braf 29 Ebrill. Roedd hon yn gêm hynod o gystadleuol ond yn brin o gyfleoedd. Chwaraeodd Dylan Hughes a Jac Williams gêm eu bywydau yng nghanol yr amddiffyn ond roedd Jamie Evans yn aml ar ben ei hun yn yr ymosod. Gydag ugain munud yn weddill aeth Tal-y-bont ar y blaen gyda gôl gan Rob Makaruk yn dilyn cic gornel gan Robbie Southgate. Roedd yn edrych fel y byddai'r gôl honno yn ddigon ond ildwyd cic gornel ddiangen gyda phum munud yn weddill a sgoriodd y Coleg i unioni'r sgôr. Roedd y gobeithion felly yn diflannu'r gyflym ond gyda dwy funud yn weddill cafwyd un ymosodiad mawr gan Dal-y-bont. Tarwyd y postyn yn dilyn cic rydd ond yna croeswyd y bêl i'r cwrt cosbi ac yno roedd arwr y dydd Callum Pritchard i rwydo. Mawr oedd y dathlu ond mae un cam arall yn weddill. Gobeithiwn y bydd modd adrodd am lwyddiant y tîm yn y rhifyn nesaf.

G.J.



Callum Pritchard a sgoriodd y gôl dyngedfennol



Darren Thomas yn cystadlu am y bêl




Rob Makaruk a sgoriodd gôl gyntaf Tal-y-bont yn erbyn y Coleg

## Camp Elaine



Am yr ail flwyddyn yn olynol mae Elaine Rowlands, Maes-y-felin, Tal-y-bont, wedi llwyddo i gwblhau marathôn Llundain. Cynhaliwyd y ras ar ddydd Sul 26 Ebrill eleni ac er i Elaine syrthio ar Tower Bridge a brifo ei choes, llwyddodd i guro ei hamser llynedd o 17 eiliad. Ei hamser swyddogol oedd 4 awr 5 eiliad – tipyn o gamp.

## Marathon Mandy



Llongyfarchiadau i Mandy Glennie, gynt o Dal-y-bont ar ôl iddi orffen Marathon Manceinion, ddydd Sul 18 Ebrill. Llwyddodd i godi £500 a rannwyd rhwng Ysbyty Plant Cymru yng Nghaerdydd a Chronfa Goffa Edwin Bach.

## Noson Rasys

Cynhaliwyd Noson Rasys llwyddiannus iawn yn y Llew Gwyn, Tal-y-bont ar nos Sadwrn 25 Ebrill. Y nod oedd codi arian ar gyfer Cymdeithas Maes Chwarae Cae'r Odyn Galch. Arweiniwyd y noson yn ddeheuig iawn gan Ifan Rowlands a llwyddwyd i godi swm sylweddol o arian a chael hwyl ar yr un pryd. Hoffai'r Gymdeithas ddiolch i'r holl noddwyr a'r sawl fu'n 'prynu' ceffylau.